Cynhaeaf o obaith

# Cyd-weddïwch y Cynhaeaf hwn

## Gweddi Cynhaeaf

Dduw’r Creawdwr, rwyt yn rhoi bywyd a goleuni i'r byd. Cydlawenhawn yn rhyfeddod a chyflawnder dy greadigaeth. Diolchwn am yr hadau bach sy'n blodeuo'n goed mawr ac yn dwyn ffrwyth helaeth.
Ymhyfrydwn yn rhoddion natur a'r gobaith a ddaw yn sgil cynhaeaf da.

Dduw Cariad, rwyt ti’n adnabod ein tristwch a'n ffaeleddau. Rydyn ni wedi torri'r hyn oedd yn ffynnu. Rydyn ni wedi bwyta a dinistrio'r hyn a roddwyd i ni i'w meithrin.
Rydyn ni'n edifarhau am ein camweddau, ac yn gofyn i ti ein harwain ni ar hyd llwybrau cyfiawnder.

Y Duw Byw, rwyt ti’n galw arnom i hau heddwch, i dyfu ffydd, a gofalu am ein gilydd mewn cariad. Planna ynom ymrwymiad i ddilyn yr alwad honno. Cryfha ein gobaith wrth i ni gyd-geisio dyfodiad dy deyrnas ar y ddaear.
**Amen.**

## Gweddi cyn pryd o fwyd

Arglwydd Dduw, mae’r ddaear yn eiddot a phopeth sydd ynddi.
Diolchwn am y bwyd rydyn ni’n ei rannu a gofynnwn am dy fendith ar y rhai sy'n ei dyfu, yn ei gynaeafu ac yn ei baratoi. Maddau i ni pan fyddwn yn methu â gofalu am dy fyd.
Ysbrydola ni i weithredu er lles ein cymdogion, yn enwedig y rhai nad oes ganddyn nhw ddigon o fwyd.
Boed i’th Ysbryd ein digoni,
Er mwyn i ni gael ein llenwi ag egni i wneud dy ewyllys.
Yn enw Iesu,
**Amen.**

## Gweddi am Obaith

Dduw gobaith,
Gyda thi, does dim byd yn amhosib.
Mae dy addewidion yn parhau,
Mae dy ysbryd yn ein cynnal.
Sefydla ynom obaith i'th fyd;
Gobaith sy’n ein symud,
Fel tân ym mêr ein hesgyrn,
Fel blaguryn yn tyfu o’r pridd,
Fel nant sy’n byrlymu’n barhaus.
Meithrin ynom weledigaeth ar gyfer newid.
Ennyn ynom awydd i sicrhau cyfiawnder,
I droi’n gobaith yn weithred,
Gwneler dy ewyllys.
**Amen.**

cymorth cristnogol

# Gweddi o Edifeirwch a Galarnad

Gweddïwn ar yr Arglwydd, gan gyffesu ein hofnau a'n methiannau.

Mae'r bwystfilod gwyllt yn aros gyda thi yn yr anialwch.
Mae'r coed yn curo eu dwylo mewn clod i ti.
Mae creaduriaid y môr yn cyflawni dy air.

Ond rydyn ni'n troi ein cefn arnat.
**Arglwydd Trugarog, trugarha wrthym.**

Mae'r ddaear yn eiddot a phopeth sydd ynddi.
Dywedaist mai da ydoedd.
Yn dy law di y mae bywyd pob peth byw.

Ond rydyn ni'n trin y ddaear fel pe bai'n eiddo i ni.
**Arglwydd Trugarog, trugarha wrthym.**

Mae'r tir yn galaru.
Mae'r cerrig yn galw allan.
Mae'r greadigaeth yn ochneidio ac yn dioddef.

Ond ein buddiannau ni yw'r unig bethau a glywn.
**Arglwydd Trugarog, trugarha wrthym.**

*Gellir bod yn ddistaw wrth i'r rhai sy'n bresennol gofio ein hangen am faddeuant a'n galar dros yr argyfwng hinsawdd.*

**Arglwydd Trugarog, Creawdwr pob un,**
**gwranda arnom a helpa ni.**
**Amen.**

# Pwyntiau gweddi

Offrymwch eich gweddïau eich hun mewn ymateb i'r canlynol:

- Gweddïwch dros ffermwyr sy'n derbyn hyfforddiant i sicrhau bod eu ffermydd yn gallu gwrthsefyll yr argyfwng hinsawdd.
- Gweddïwch dros bobl sy'n dioddef o ddiffyg maeth ac y bydd y byd yn gweithredu i atal yr anghyfiawnder hwn.
- Gweddïwch dros bobl sy'n dioddef o ddiffyg maeth, y bydd y byd yn gweithredu i atal yr anghyfiawnder hwn.
- Gweddïwch am lefydd lle mae cnydau a bywoliaethau dan fygythiad yn sgil tywydd eithafol.
- Gweddïwch am dwf gobaith y cynhaeaf hwn.

# Gweddi o Ddiolchgarwch ac Anfon

O Dduw, diolchwn i ti am y rhoddion sydd o'n cwmpas,
Sy'n llifo o'n cymdeithas,
Sy'n tyfu o'n gweithredoedd yn dy enw di.
Ysbrydola ni â'th Ysbryd,
Anoga ni i chwilio am ffyrdd newydd o wrthsefyll anghyfiawnder,
a chodi llais dros y rhai mewn angen.
Anfon ni allan wedi'n hadfywio,
er mwyn i ni wneud gwaith dy deyrnas.
Gofynnwn hyn yn dy enw, Arglwydd.
**Amen**.

# Syniadau ar gyfer Gweddïau Creadigol

## Cadwyn Weddi O'r Pridd i'r Plât

Mae'r gweithgaredd gweddi syml hwn yn eich helpu i olrhain taith eich bwyd o'r pridd i'r plât. Bydd angen stribedi o bapur, beiros neu bensiliau a ffyn glud arnoch.

Cyn eich cyfarfod neu wasanaeth, dewiswch rai eitemau bwyd cyffredin gan nodi ble maen nhw'n cael eu tyfu. Gallech ofyn i'ch cymuned wneud hyn drwy gasglu labeli sy'n dangos gwledydd tarddiad pan fyddan nhw'n  gwneud eu siopa wythnosol.

Gwahoddwch bobl i ysgrifennu brawddeg ar stribedi papur yn mynegi eu gobeithion i'r rhai sy'n tyfu ein bwyd ym mhob gwlad. Cymerwch funud i gyflwyno'r gobaith hwnnw gerbron Duw, gan weddïo yn uchel neu mewn distawrwydd. Dylai pob person wedyn ddolennu a gludo ei stribed i greu dolen gyntaf cadwyn bapur.

Daliwch ati gyda mwy o stribedi papur, gan wahodd y rhai sy'n bresennol i ysgrifennu eu gobeithion ar gyfer:

- Y rhai sy'n cludo bwyd i'r DU.
- Y rhai sy'n danfon bwyd i warysau ac archfarchnadoedd yn y DU.
- Staff yn eich archfarchnad leol a'ch siopau bwyd, yn ogystal â'r rhai sy'n danfon bwyd i'n drysau.
- Y rhai sy'n coginio i ni ac yn rhannu prydau bwyd gyda ni.

Ar y darn olaf o bapur gofynnwch i'r rhai sydd wedi casglu ynghyd i fynegi eu gobeithion yn wyneb y problemau sy'n effeithio ar gyflenwadau bwyd byd-eang. Mae'r rhain yn cynnwys tlodi, gwrthdaro, a'r argyfwng hinsawdd. Gweddïwch gyda'ch gilydd am weithredu i ddod â thlodi i ben, dod â heddwch i'r byd a thaclo'r argyfwng hinsawdd.

## Myfyrdod y Cynhaeaf

Mae'r ddaear yn ffrwythlon; boed i ni fod yn hael.
Mae'r ddaear yn fregus; boed i ni fod yn addfwyn.
Mae'r ddaear wedi torri; boed i ni fod yn gyfiawn.

# Gweddïo dros ein cymdogion: lleol a byd-eang

## Ein cymdogion lleol

Gweddïwch dros achosion sy'n agos i'ch cartref, fel eich banc bwyd lleol a phobl sy'n profi tlodi yn eich cymuned. Gweddïwch drosoch chi eich hun, eich teulu a'ch ffrindiau, er mwyn i Dduw eich arwain wrth i chi weithredu dros fyd mwy cyfiawn.

## Arweinwyr lleol a byd-eang

Gweddïwch dros y rhai sydd â grym gwleidyddol ac economaidd, y byddant yn gweithredu i daclo ansicrwydd bwyd ac achosion yr argyfwng hinsawdd. Gweddïwch am arweinyddiaeth doeth a cyfiawn yn ein cymunedau, llywodraethau a sefydliadau yn y DU ac o amgylch y byd. Gweddïwch dros y rhai sydd wedi'u heithrio o rym, na fyddant yn cael eu gwthio i'r cyrion mwyach.

## Ein cymdogion byd-eang

Gan gofio ein bod yn cael ein galw i garu ein cymdogion fel ni ein hunain, gweddïwch dros ein cymdogion byd-eang mewn llefydd fel Sierra Leone. Gweddïwch dros y rhai sy'n dioddef effeithiau mwyaf yr argyfwng hinsawdd. Gweddïwch am ddiwedd i newyn ac ansicrwydd bwyd ledled y byd.

## Y byd, ein cartref

Gweddïwch dros y ddaear, cartref dynoliaeth a phob creadur byw. Gweddïwch dros y rhai sy'n gweithio i atgyweirio a gwella'r niwed rydyn ni wedi'i wneud i'r byd naturiol. Gweddïwch dros y rhai sy'n gweithio i ddatblygu dulliau ffermio cynaliadwy. Gweddïwch am gamau i amddiffyn ein cynefin naturiol a thrysori tir, dŵr, planhigion ac anifeiliad.



**Ewch i caid.org.uk/pray am ragor o ffyrdd i weddïo am gyfiawnder hinsawdd.**

# Golchwyd i Ffwrdd, Twf Newydd

Ar gyfer y gweithgaredd hwn bydd angen y canlynol arnoch: pensiliau, powlen lydan fawr wedi'i llenwi â dŵr, hedyn, potyn, rhywfaint o gompost, a rhai dalennau o bapur dŵr-hydawdd (ar gael i'w brynu ar-lein; nodwch fod papur dŵr-hydawdd yn wahanol i bapur reis).

Mewn rhannau o'r byd fel Sierra Leone, mae'r argyfwng hinsawdd yn golygu bod llifogydd yn fwy tebygol gyda mwy o ardaloedd o dir yn fwy agored i lifogydd. Mae'r gweithgaredd gweddi hwn yn cynrychioli'r colledion sy’n cael eu hachosi gan yr argyfwng hinsawdd, yn ogystal â bod yn arwydd o obaith am newid.

Torrwch eich papur dŵr-hydawdd yn betryalau bach a gofynnwch i'r rhai sy’n cymryd rhan ysgrifennu gair neu ymadrodd o alarnad arnyn nhw gyda'u pensiliau. Gallai fod yn fynegiant personol o dristwch neu edifeirwch neu'n fynegiant o sut maen nhw'n teimlo pan welant dywydd eithafol a thrychinebau amgylcheddol yn digwydd ledled y byd.

Gwahoddwch bob person i roi ei bapur yn y bowlen o ddŵr. Wrth i'r papur doddi, gweddïwch dros bawb y mae eu cartrefi, eu cnydau, eu bywoliaethau a’u gobeithion wedi cael eu golchi i ffwrdd neu eu dinistrio. Yna, treuliwch eiliad mewn tawelwch.

Nawr cymerwch eich potyn, ei lenwi â chompost a phlannwch eich hadau. Dyfrhewch y potyn o'r bowlen lle toddodd eich papur. Bydd unrhyw bapur sy'n weddill yn bioddiraddio yn y pridd.

Wrth i chi ddyfrhau’r pridd, gweddïwch am adfer yr hyn y gellir ei adfer ac am iachâd i’r ddaear. Efallai y byddwch am ddefnyddio un o'r darnau canlynol:

Heuwch hadau cyfiawnder,
a chewch gynhaeaf o gariad gen i.
Trin tir eich calon galed –
ceisio’r Arglwydd nes iddo ddod
gyda chawodydd achubiaeth.
(Hosea 10:12)

Bydd y rhai sy’n wylo wrth hau
yn canu’n llawen wrth fedi’r cynhaeaf.
(Salmau 126:5)

# Tymor y Gweddïau Creu 2025

Y Duw Tri yn Un, Creawdwr pob peth,

Rydyn ni’n dy glodfori am dy ddaioni, sydd i’w weld yn yr holl amrywiaeth rwyt ti wedi'i greu, gan ein gwneud ni'n deulu cosmig sy'n byw mewn cartref rydyn ni’n ei rannu.
Trwy'r Ddaear a greaist, rydyn ni'n profi cariad a maeth, cartref ac amddiffyniad.

Rydyn ni’n cyfaddef nad ydyn ni’n ymwneud â'r Ddaear fel rhodd Mam gennyt ti, ein Creawdwr.
Mae ein hunanoldeb, ein trachwant, ein hesgeulustod a’n camdriniaeth wedi achosi'r argyfwng hinsawdd, colled bioamrywiaeth, dioddefaint dynol yn ogystal â dioddefaint ein cyd-greaduriaid.

Rydyn ni’n cyfaddef ein bod wedi methu gwrando ar ocheneidiau'r Ddaear, ocheneidiau pob creadur, ac ocheneidiau’r Ysbryd o obaith a chyfiawnder sy'n byw ynom.

Boed i'th Ysbryd fel Creawdwr ein helpu yn ein gwendid, er mwyn i ni adnabod grym achubol Crist a'r gobaith a geir ynddo.
Boed i ocheneidiau’r Ysbryd blannu ynom barodrwydd i'th wasanaethu'n ffyddlon, er mwyn i ni glywed a gwella'r Greadigaeth, gobeithio a gweithredu gyda hi, er mwyn i i flaenffrwyth gobaith flodeuo.

Dduw Cariadus a’r Duw Creawdwr, gweddïwn dy fod yn ein gwneud ni’n sensitif i'r ocheneidiau hyn a galluoga ni i gael yr un tosturi ag Iesu, yr Arglwydd Waredwr.
Rho weledigaeth o’r newydd i ni o'n perthynas â'r Ddaear, ac â'n gilydd, fel creaduriaid sydd wedi ein creu ar dy ddelw di.

Yn enw'r un a ddaeth i gyhoeddi'r newyddion da i'r holl Greadigaeth, Iesu Grist.
**Amen.**

Mae Cymorth Cristnogol yn un o noddwyr Tymor y Creu (Season of Creation), partneriaeth eciwmenaidd sy'n darparu adnoddau i rymuso Cristnogion i ymateb i'r argyfwng amgylcheddol byd-eang.
Mae eglwysi'n nodi Tymor y Creu yn ystod mis Medi a dechrau Hydref.
Gallwch ddarganfod mwy yn seasonofcreation.org

Christian Aid is a key member of ACT Alliance. Eng and Wales charity no. 1105851 Scot charity no. SC039150 Company no. 5171525. Christian Aid Ireland: NI charity no. NIC101631 Company no. NI059154 and ROI charity no. 20014162 Company no. 426928.The Christian Aid name and logo are trademarks of Christian Aid.
© Christian Aid